# Adolygiad o Lwybr Arfordir Cymru ar ei ddegfed pen-blwydd

## Argymhellion ar gyfer Datblygu yn y Dyfodol

Grŵp Adolygu Llwybr Arfordir Cymru

**Rhagair**

Sefydlwyd ein Grŵp Adolygu Llwybr Arfordir Cymru ar gais y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters AS, a ofynnodd i'r Grŵp fyfyrio ar y cyflawniadau allweddol dros y degawd diwethaf a nodi sut i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Yn 2012, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i greu llwybr pwrpasol o amgylch arfordir cyfan. Bu Llwybr Arfordir Cymru yn fodd i sefydlu Cymru fel arloeswr o ran agor mynediad i'r amgylchedd naturiol, a darparu cyrchfan twristiaeth eiconig sydd ag enw da yn rhyngwladol.

Lluniwyd ein hadolygiad o amgylch pedair thema allweddol:

- **ffocws ar gymunedau lleol** – rhoi pobl a lleoedd wrth galon Llwybr Arfordir Cymru.
- **ffocws ar Gymru ei hun** – nodi pŵer Llwybr Arfordir Cymru i helpu i newid Cymru er gwell.
- **ffocws y tu hwnt i Gymru** – harneisio pŵer Llwybr Arfordir Cymru yn rhyngwladol.
- **ffocws ar genedlaethau'r dyfodol** – galluogi dyfodol cynaliadwy a bywiog i Lwybr Arfordir Cymru.

Mae ein hadroddiad yn nodi argymhellion y Grŵp i Lywodraeth Cymru ac i'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru (CNC a'r Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol ar hyd y llwybr). Dylid ystyried yr argymhellion hyn fel man cychwyn i Weinidogion gyd-gynhyrchu gweledigaeth a chyfeiriad strategol cyffrous ac wedi'u hadnewyddu ar gyfer y Llwybr ac i weithio'n egnïol o'r newydd gyda rhanddeiliaid a chymunedau ledled Cymru. Rydym am i Lywodraeth Cymru ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru, ynghyd â'n rhwydwaith llwybrau ehangach, fel catalydd ar gyfer datblygu diwylliant cenedlaethol o fod yn yr awyr agored bob dydd, am gyfnod hwy a chyda lefelau uwch o weithgarwch, er lles pobl Cymru.

Diolchwn i'r llu o bobl a sefydliadau a gyfrannodd syniadau ac gyflwynodd heriau i'r Grŵp Adolygu.

Wrth i ni ddathlu degfed pen-blwydd Llwybr Arfordir Cymru, ein cyngor i unrhyw un sy'n darllen yr adroddiad hwn, yw hyn: ewch allan i fwynhau Llwybr Arfordir Cymru a'n cyfoeth anhygoel o lwybrau pellter hir yng Nghymru. Ewch â'r adroddiad hwn gyda chi i'w ddarllen ar eich taith!

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Grŵp Adolygu Llwybr Arfordir Cymru

**<u>Crynodeb o'r Argymhellion</u>**

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru nodi gweledigaeth glir a chymhellol ar gyfer dyfodol Llwybr Arfordir Cymru. Cred y Grŵp Adolygu y dylai hyn adlewyrchu potensial llawn y Llwybr i gyfrannu at iechyd a llesiant; ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd; sy'n ysbrydoli pobl i gysylltu â natur a mwynhau gweithgareddau awyr agored; ac sy'n cryfhau arweinyddiaeth ryngwladol Cymru yn y materion hyn.

**Bydd Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol ac yn hygyrch i bawb wrth ysbrydoli a galluogi cysylltiad â byd natur sy'n cefnogi iechyd a llesiant pobl Cymru a'r byd naturiol.**

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r degfed pen-blwydd i ddechrau sgwrs genedlaethol i arwain datblygiad Llwybr Arfordir Cymru ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt. Gan adeiladu ar y weledigaeth, dylai hyn arwain at ddatblygu strategaeth sy'n cynnwys camau gweithredu ac amserlenni penodol.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pŵer Llwybr Arfordir Cymru fel catalydd ar gyfer cysylltu pobl â byd natur yn amlach ac am gyfnod hwy, i helpu i wireddu'r manteision ehangach i iechyd a llesiant, ac i hyrwyddo newid diwylliannol tuag at werthfawrogiad a mwynhad dyfnach o natur a'r awyr agored.

**Argymhelliad 4:** Dylid cynnal digwyddiad "Rhodio'r Llwybr" agoriadol ar gyfer rhanddeiliaid allweddol ym maes iechyd a llesiant er mwyn hybu gwell dealltwriaeth o botensial llesiant yr awyr agored. Dylid ystyried hyn fel dechrau "galwad cenedlaethol i weithredu" i ddatblygu meddwl newydd a phartneriaethau newydd i hyrwyddo buddion ehangach gweithgaredd awyr agored.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru nodi ac adeiladu ar y dysgu a'r arfer da sydd eisoes yn bodoli i ddyfnhau perthnasoedd â grwpiau defnyddwyr amrywiol ar hyd y Llwybr, gyda'r nod o reoli gwrthdaro posibl a hyrwyddo mynediad cynaliadwy a chyfrifol.

**Argymhelliad 6:** Dylai'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru geisio ehangu ar eu gwaith gyda fforymau mynediad lleol i nodi, mapio a hyrwyddo llwybrau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr. Gall hyn gynnwys llwybrau byr newydd neu rannau newydd sy'n gwyro oddi wrth y prif lwybr cerdded ac yn ailymuno ag ef, llwybrau cylchol sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru, neu lwybrau newydd.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru i gyflwyno opsiynau a allai gynnwys mecanweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol (gan gynnwys darpariaethau dirwyn yn ôl) i wella'r ffordd y mae Llwybr Arfordir Cymru yn gallu ymateb yn gyflym i erydiad ac adfer y Llwybr.

**Argymhelliad 8:** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwygio'r safonau ansawdd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol eraill yng Nghymru i gynnwys "ysbrydoli adferiad byd natur", a cheisio cyflwyno arfer gorau ar wella bioamrywiaeth ac adfer byd natur gyda'r bwriad o wneud hyn yn arfer normal.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys datblygu a chynnal a chadw Llwybr Arfordir Cymru a mynediad ato wrth ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion penodol ar gyfraniad Llwybr Arfordir Cymru at newid dulliau teithio tuag at deithio cynaliadwy a theithio llesol i ymwelwyr a thrigolion, a dylai gynnwys cyllid hirdymor hyfyw.

**Argymhelliad 11:** Byddem yn annog y sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru i weithio gyda Google i ehangu'r gwaith o ffilmio'r Llwybr ar gyfer Google Street view.

**Argymhelliad 12:** Dylid ystyried datblygu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, gan ddod â busnesau ar hyd y Llwybr cyfan rhannau ohono ynghyd i wella cydweithredu, darparu cyngor a chymorth, a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer datblygu busnes a chreu cyflogaeth.

**Argymhelliad 13:** I nodi Degfed Pen-blwydd Llwybr Arfordir Cymru, dylai'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru ymrwymo i weithio'n frwd gydag ysgolion a sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu llythrennedd corfforol a naturiol i roi cyfle i bob plentyn yng Nghymru fwynhau o leiaf diwrnod o gerdded ar Lwybr Arfordir Cymru - neu lwybr pellter hir - erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd.

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strwythur goruchwylio wedi'i ddiweddaru a'i adnewyddu ar gyfer rheoli Llwybr Arfordir Cymru, gan adlewyrchu'r dull strategol newydd a'r uchelgeisiau ar gyfer y Llwybr.

**Argymhelliad 15:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio modelau i annog mwy o gydweithredu a chydweithio – yn enwedig ar sail leol a chymunedol – i ddyfnhau ymgysylltiad cymunedol ac i gefnogi'r dull strategol newydd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.

**Argymhelliad 16:** Dylai'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru – gyda chymorth Llywodraeth Cymru – ddatblygu cynllun hirdymor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer sicrhau gwaith cynnal a chadw a chyllid newydd, gan ystyried y buddion y cytunwyd arnynt y gall y Llwybr eu cynnig i gyllidwyr amrywiol yn unol â'r weledigaeth newydd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys iechyd a llesiant, ac adferiad byd natur ac ati).

**Argymhelliad 17:** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu dull newydd o gasglu a dadansoddi data sy'n ymwneud â defnyddiau ac effeithiau Llwybr Arfordir Cymru, monitro ac adrodd er mwyn caniatáu ar gyfer cynllunio ariannol cadarn a gwireddu buddion.

**Argymhelliad 18:** Dylai Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru gydgrynhoi adnoddau a chyfrifoldebau ar gyfer marchnata Llwybr Arfordir Cymru ar lefel genedlaethol gyda Croeso Cymru.

**Argymhelliad 19:** Dylid cysylltu marchnata ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru â'r holl rwydwaith llwybrau pellter hir, gan hyrwyddo pecyn o gyfleoedd twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru.

## 1. Creu Gweledigaeth Feiddgar i Wireddu Potensial Llawn Llwybr Arfordir Cymru

Ers sefydlu Llwybr Arfordir Cymru yn 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth arloesol sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cydnabod maint y bygythiad i'n hamgylchedd drwy ddatgan argyfyngau newid hinsawdd a natur ac wedi tynnu sylw at yr heriau iechyd cyhoeddus a achosir gan ddiffyg ymarfer corff, iechyd meddwl gwael ac yn fwy diweddar gan Covid 19. O fewn y cyd-destun hwn sydd wedi newid, mae Grŵp Adolygu Llwybr Arfordir Cymru wedi canolbwyntio ar ffyrdd newydd o wireddu potensial llawn Llwybr Arfordir Cymru, gan ddod â'r ystod ehangaf posibl o fuddion cynaliadwy a chynhwysol i bobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru.

Gwnaethom ofyn i randdeiliaid ddweud wrthym sut y dylai gweledigaeth ar gyfer dyfodol Llwybr Arfordir Cymru edrych. Roedd eu hymatebion yn adlewyrchu eu hoptimistiaeth enfawr ar gyfer dyfodol y Llwybr; roedd ymatebwyr yn gweld y Llwybr yn un gweledigaethol, symbolaidd, ysbrydoledig, tra hefyd yn nodi'r heriau niferus i sicrhau dyfodol hyfyw a chyffrous i'r Llwybr.




Wrth edrych i'r dyfodol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru helpu i osod gweledigaeth newydd ac uchelgeisiol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, wedi'i llywio gan waith y

Grŵp Adolygu hwn. Dylai'r weledigaeth hon, wrth gydnabod a hyrwyddo effaith economaidd y Llwybr a'i gyrhaeddiad rhyngwladol fel atyniad i ymwelwyr, nawr adlewyrchu cyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a blaenoriaethau a heriau newydd. Mae'r ffocws adfywiol hwn ar fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad y Llwybr at y Nodau Llesiant, iechyd cyhoeddus ehangach pobl Cymru a'r amgylchedd naturiol yn hanfodol i gyflawni'r effeithiau economaidd a rhyngwladol mewn ffordd wirioneddol gynaliadwy.

Nododd y Grŵp Adolygu rai egwyddorion allweddol a ddylai fod yn rhan o gynllunio strategol yn y dyfodol:

- Rhaid i gynaliadwyedd fod wrth wraidd popeth y mae Llwybr Arfordir Cymru yn ceisio'i wneud.
- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn eiconig; dylid ei ystyried yn em ar gyfer rhwydwaith bywiog o lwybrau pellter hir yng Nghymru.
- Rhaid edrych ar y Llwybr fel rhan o goridor neu barth arfordirol ehangach er mwyn sicrhau'r mynediad a'r ymgysylltu mwyaf posibl a manteision economaidd ehangach.
- Dylai'r Llwybr ysbrydoli a darparu cyfleoedd ar gyfer newid ymddygiad mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru nodi gweledigaeth glir a chymhellol ar gyfer dyfodol Llwybr Arfordir Cymru. Cred y Grŵp Adolygu y dylai hyn adlewyrchu potensial llawn y Llwybr i gyfrannu at iechyd a llesiant; ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd; sy'n ysbrydoli pobl i gysylltu â natur a mwynhau gweithgareddau awyr agored; ac sy'n cryfhau arweinyddiaeth ryngwladol Cymru yn y materion hyn.

**Bydd Llwybr Arfordir Cymru yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol ac yn hygyrch i bawb wrth ysbrydoli a galluogi cysylltiad â byd natur sy'n cefnogi iechyd a llesiant pobl Cymru a'r byd naturiol.**

## 2. Creu Cysylltiadau – Yn Genedlaethol ac yn Rhyngwladol

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn llwybr eiconig a symbolaidd, sy'n cyfleu Cymru fel cenedl, ein gwerthoedd, a sut yr ydym am i eraill weld ac ymgysylltu â ni.

Mae'r Grŵp Adolygu yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pŵer symbolaidd y Llwybr i anfon neges i Gymru gyfan ac i weddill y byd am yr hyn sy'n bwysig i'n cenedl, gan gynnwys:

- Iechyd a llesiant pobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru.
- Twristiaeth gynaliadwy sydd o fudd i'n cymunedau yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.
- Teithio cynaliadwy a llesol i ac o Gymru ac o amgylch cymunedau'r Llwybr.
- Rheoli tir yn gynaliadwy.
- Ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Rôl addysg wrth hyrwyddo cyfraniad y Llwybr at gynaliadwyedd a llesiant yng Nghymru a'r byd ehangach.
- Strategaeth Ryngwladol i Gymru.
- Cymru fel Cenedl Noddfa.

Mae degawd cyntaf Llwybr Arfordir Cymru wedi bod yn llwyddiant mewn sawl ffordd, ond ar ben hynny mae wedi darparu sylfaen gref i wneud mwy, gyda hyd yn oed mwy o botensial yn y blynyddoedd i ddod fel ffynhonnell gweithgaredd corfforol a hamdden; cymorth i wella iechyd meddwl a llesiant; coridor ar gyfer bioamrywiaeth; adeiladwr cymunedau lleol cryf; cynhyrchydd economaidd ac esiampl o'n gwerthoedd cenedlaethol.

| |
|---|
| **Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r degfed pen-blwydd i ddechrau sgwrs genedlaethol i arwain datblygiad y Llwybr ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt. Gan adeiladu ar y weledigaeth, dylai hyn arwain at ddatblygu strategaeth sy'n cynnwys camau gweithredu ac amserlenni penodol. |

## 3. Iechyd a Llesiant

Mae llawer ohonom wedi ailgynnau ein perthynas â'r byd naturiol a gweithgarwch awyr agored yn ystod pandemig Covid 19, gan ailddarganfod y buddion y gall treulio amser egnïol yn yr awyr agored eu cynnig i'n hiechyd a'n llesiant corfforol a meddyliol ac ar gyfer adeiladu a chynnal cysylltiadau o fewn a rhwng ein cymunedau lleol.

Dylid manteisio ar ddegfed pen-blwydd Llwybr Arfordir Cymru fel catalydd i ddatblygu rhaglen feiddgar a llawn dychymyg sy'n cysylltu trigolion ac ymwelwyr â manteision amrywiol hamdden egnïol yn yr awyr agored, fel rhan o genhadaeth barhaus i gynyddu'n sylweddol weithgarwch rheolaidd a mwynhad o'r awyr agored.

Yn hollbwysig, dylai'r ffocws fod ar roi dulliau profedig ar waith, ynghyd â chyllid a hyfforddiant parhaus i ymarferwyr, am o leiaf 10 mlynedd os ydym am wireddu canlyniadau iechyd ar lefel y boblogaeth.

Mae'r Grŵp Adolygu o'r farn y gall Llwybr Arfordir Cymru chwarae rhan ganolog wrth annog mwy o bobl i fynd allan a mwynhau'r amgylchedd naturiol yn amlach ac yn hirach. Gallai'r amcan ehangach fod yn newid diwylliannol i ddod yn genedl sy'n canolbwyntio mwy ar yr awyr agored. Dylid tynnu gwersi o astudiaethau ymchwil a gwerthuso rhyngwladol. Dylid gwneud cysylltiadau hefyd â mentrau fel Parc Rhanbarthol y Cymoedd, gan weithio'n gyson i achub ar gyfleoedd i hyrwyddo mynediad a chyfranogiad awyr agored ledled Cymru. Mae cynllun 'Llwybrau i Lesiant' Cerddwyr Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn enghraifft dda arall o sut y gall cymunedau gefnogi ei gilydd i elwa o fod yn yr awyr agored er lles eu hiechyd eu hunain a lles yr amgylchedd.

| |
|---|
| **Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pŵer Llwybr Arfordir Cymru fel catalydd ar gyfer cysylltu pobl â byd natur yn amlach ac am gyfnod hwy, i helpu i wireddu'r manteision ehangach i iechyd a llesiant, ac i hyrwyddo newid diwylliannol tuag at werthfawrogiad a mwynhad dyfnach o natur a'r awyr agored. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 4:** Dylid cynnal digwyddiad "Rhodio'r Llwybr" cyntaf ar gyfer rhanddeiliaid allweddol ym maes iechyd a llesiant er mwyn hybu gwell dealltwriaeth o botensial llesiant yr awyr agored. Dylid ystyried hyn fel dechrau |

“galwad cenedlaethol i weithredu” i ddatblygu meddwl newydd a phartneriaethau newydd i hyrwyddo buddion ehangach gweithgaredd awyr agored.

## 4. Mynediad a Chyfranogiad

Mae ymchwil yn dangos bod gormod o bobl yng Nghymru o hyd nad ydynt yn defnyddio Llwybr Arfordir Cymru neu fannau gwyrdd eraill yng Nghymru, neu sy’n eu defnyddio’n anaml. Mae’r rhesymau ffisegol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol am hyn yn gymhleth – fel y mae’r atebion hefyd. Mae gweithio gyda grwpiau ac unigolion cyfranogiad isel i ddeall y rhwystrau yn hanfodol.

I ddechrau, lluniwyd y Llwybr yn bennaf fel llwybr cerdded ond mae wedi datblygu dros amser i gynnig profiad ehangach i wahanol ddefnyddwyr. Er enghraifft, mae poblogrwydd cynyddol beicio oddi ar y ffordd (ac yn fwy diweddar e-feiciau) wedi arwain at y defnyddwyr newydd hyn yn cyrchu rhannau o'r Llwybr. Fodd bynnag, os na chaiff ei reoli'n dda, gallai hyn achosi gwrthdaro rhwng defnyddwyr, yn ogystal ag achosi problemau eraill fel mwy o erydiad ar safleoedd sensitif.

Mae rhai rhanddeiliaid am weld mynediad gwell ond wedi’i reoli ar gyfer beicwyr a merlotwyr mewn rhannau priodol. Roedd eraill yn pryderu bod rhannau o'r Llwybr yn anaddas i ddefnyddwyr heblaw cerddwyr, neu y dylid dyfeisio llwybrau arfordir amgen ar gyfer y rhai nad ydynt yn cerdded. Mae rheolwyr tir a phartneriaid fforymau mynediad yn cydnabod yn glir y materion hyn a'r cydbwysedd sydd angen ei daro rhwng anghenion amrywiol yr holl ddefnyddwyr posibl, tra'n cadw nodweddion naturiol y Llwybr a pharchu hawliau tirfeddianwyr.

Mae awydd i reoli'r defnydd cynyddol o'r Llwybr yn fwy effeithiol, y gwrthdaro posibl rhwng defnyddwyr, a'r effeithiau amgylcheddol. Mae cydnabyddiaeth hefyd y byddai croeso i well rheolaeth, gwell mapio, a’r potensial ar gyfer llwybrau newydd ac amgen i rai defnyddwyr i ffwrdd o safleoedd sensitif a “phot mêl”. Lle datblygir mynediad newydd ac ehangach – gan gynnwys i'r môr – bydd angen datblygu seilwaith priodol a chyllid cysylltiedig.

**Argymhelliad 5:** Dylai’r sefydliadau sy’n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru nodi ac adeiladu ar y dysgu a’r arfer da sydd eisoes yn bodoli i ddyfnhau perthnasoedd â grwpiau defnyddwyr amrywiol ar hyd y Llwybr, gyda’r nod o reoli gwrthdaro posibl a hyrwyddo mynediad cynaliadwy a chyfrifol.

**Argymhelliad 6:** Dylai’r sefydliadau sy’n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru geisio ehangu ar eu gwaith gyda fforymau mynediad lleol i nodi, mapio a hyrwyddo llwybrau sy’n addas ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr. Gall hyn gynnwys llwybrau byr newydd neu rannau newydd sy’n gwyro oddi wrth y prif lwybr cerdded ac yn ailymuno ag ef, llwybrau cylchol sy’n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Cymru, neu lwybrau newydd.

## 5. Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Rhaid ystyried hyrwyddo ac ehangu mynediad cyfrifol i Lwybr Arfordir Cymru ac at lwybrau cylchol a chysylltiedig fel rhan o’r sgwrs ehangach am ddefnydd tir yn

gynaliadwy, a mynediad cyfrifol i'r arfordir a chefn gwlad. Yn yr un modd, mae potensial y Llwybr i hyrwyddo adferiad byd natur a bioamrywiaeth ac yn ein hymateb i newid hinsawdd yn rhan annatod o'r diwygiadau polisi ehangach hyn.

Mae mynd i'r afael ag effeithiau erydu arfordirol a newid yn yr hinsawdd a chynnal a rheoli mynediad yn her barhaus, a bydd yn parhau i fod felly, i'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru a thirfeddianwyr. Soniodd rhanddeiliaid wrthym am effeithiau erydu arfordirol, niferoedd uchel o ymwelwyr ar y rhannau mwyaf poblogaidd, adrannau anfoddhaol gyda "bylchau" yn y Llwybr a lle mae'r Llwybr ar ffyrdd neu lle gellid ei ystyried fel arall heb ei orffen. Mae ailddatgan ac adlinio'r Llwybr lle mae erydiad wedi dileu rhannau yn aml yn cymryd gormod o amser neu'n arwain at ddargyfeiriadau mawr i mewn i'r tir ac i ffwrdd o'r "llwybr gorau posibl".

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru i gyflwyno opsiynau a allai gynnwys mecanweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol (gan gynnwys darpariaethau dirwyn yn ôl) i wella'r ffordd y mae Llwybr Arfordir Cymru yn gallu ymateb yn gyflym i erydiad ac adfer y Llwybr.

Mae rhai enghreifftiau da eisoes o brosiectau i wella bioamrywiaeth ar y Llwybr, fel peilot Prosiect Ein Llwybrau Byw ar Benrhyn Llŷn a Wardeniaid Peillio ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Teimlai'r Grŵp Adolygu, yn amodol ar werthusiad, fod gan y prosiectau hyn y potensial i gael eu huwchraddio a'u hailadrodd ar hyd y Llwybr.

**Argymhelliad 8:** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwygio'r safonau ansawdd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol eraill yng Nghymru i gynnwys "ysbrydoli adferiad byd natur", a cheisio cyflwyno arfer gorau ar wella bioamrywiaeth ac adfer byd natur gyda'r bwriad o wneud hyn yn arfer normal.

Mae rheoli tir yn gynaliadwy a diwygio cymorth i ffermydd yn y dyfodol hefyd yn cynnig cyfleoedd i gael eu gwireddu o fynediad ehangach ac wrth gysylltu'r Llwybr â chymunedau lleol, gan ddyfnhau hefyd y cyfleoedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i fusnesau a chymunedau ar hyd coridor yr arfordir. Dylai'r rhain gynnwys gweithio gyda thirfeddianwyr a sefydliadau lleol a fforymau mynediad i fynd ati i ddatblygu a hyrwyddo llwybrau cylchol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys datblygu a chynnal a chadw Llwybr Arfordir Cymru a mynediad ato wrth ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

## 6. Teithio Cynaliadwy

Rhaid i'r weledigaeth ar gyfer dyfodol Llwybr Arfordir Cymru fod â chynaliadwyedd cryf wrth ei gwreiddiau. Felly, mae'n bwysig sut rydyn ni i gyd – ymwelwyr a thrigolion lleol – yn teithio i Lwybr yr Arfordir, y coridor arfordirol ac o'i amgylch. Dros y degawd diwethaf bu rhai enghreifftiau gwych o sut i gynyddu'r defnydd o

drafnidiaeth gyhoeddus ac ar-alw yn y coridor arfordirol ac o'i amgylch, gan gynnwys bws Fflecsi a Bwcabus, cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus tymhorol wedi'u hanelu at ymwelwyr a thwristiaid, ac ymdrechion i hyrwyddo teithio llesol.

Ond yn rhy aml nodweddir y mentrau hyn gan gyllid tymor byr ac ansefydlogrwydd ariannol. Mae potensial gwirioneddol i Lwybr Arfordir Cymru chwarae ei ran drwy enghreifftio'r gorau o'r hyn y gallwn ei wneud o ran newid dulliau teithio, yn y ffordd yr ydym yn cyrraedd yr arfordir, a'r ffordd yr ydym yn teithio o'i amgylch. Dylai manteision buddsoddi mewn trafnidiaeth gynaliadwy fod i ymwelwyr a thrigolion lleol.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion penodol ar gyfraniad Llwybr Arfordir Cymru at newid ddulliau teithio tuag at deithio cynaliadwy a theithio llesol i ymwelwyr a thrigolion, a dylai gynnwys cyllid hirdymor hyfyw.

## 7. Gwella'r Profiad Digidol

Mae Cynghorau Sir Gwynedd ac Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi bod yn rhagflaenwyr o ran ffilmio Llwybr Arfordir Cymru, gan weithio gyda Google Street View i sicrhau cynulleidfa dorfol ar gyfer y canlyniadau. Mae'r Grŵp Adolygu'n gweld potensial aruthrol i ehangu hyn yn raddol ymhellach ar hyd y Llwybr, gan alluogi ymwelwyr i gynllunio eu llwybr gan brofi heriau, cymeriad a hygyrchedd y rhan y dymunent ei chyrchu yn rhithwir. Mae ffilmio ar gyfer Google Street View hefyd yn arf hyrwyddo sy'n caniatáu i ddarpar ymwelwyr brofi'r Llwybr o bell a chynllunio eu hymweliad yn well. Yn olaf, i rai nad ydynt efallai byth yn gallu ymweld â'r Llwybr cyfan neu rannau ohono, mae'n caniatáu profiad rhithwir rhyfeddol o Lwybr Arfordir Cymru.

Roedd potensial gwirioneddol i fusnesau lleol allu defnyddio ffilmio ar gyfer Google Street View i hysbysebu i gynulleidfa eang ac i dirfeddianwyr allu archwilio opsiynau ar gyfer arallgyfeirio defnydd tir.

**Argymhelliad 11:** Byddem yn annog y sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru i weithio gyda Google i ehangu'r gwaith o ffilmio'r Llwybr ar gyfer Google Street view.

Clywsom fod tynfa Llwybr Arfordir Cymru wedi bod o fudd gwirioneddol i lawer o fusnesau arfordirol ar ffurf mwy o dwristiaeth a gwariant gan ymwelwyr. Ac eto mae potensial pellach trwy rannu arfer gorau a gwybodaeth. Roedd pocedi o arfer da ond dim mecanwaith i rannu'r dysgu a'r profiad hwnnw ar hyd y Llwybr. Byddai hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer rhannu gwersi am arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.

**Argymhelliad 12:** Dylid ystyried datblygu porth busnes pwrpasol ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru, gan ddod â busnesau ar hyd y cyfan o Lwybr yr Arfordir a rhannau ohono ynghyd i wella cydweithredu, darparu cyngor a chymorth, a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer datblygu busnes a chreu cyflogaeth.

## 8. Addysg

Cydnabu'r Grŵp Adolygu'r defnydd posibl o Lwybr Arfordir Cymru i ddatblygu ymwybyddiaeth ac addysg mewn cynaliadwyedd ac iechyd a llesiant ac, yn fwy penodol, mewn perthynas â natur, bywyd morol, bioamrywiaeth, hanes, archaeoleg, mytholeg a chwedlau, a'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

Croesawodd y Grŵp y rôl y mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Croeso Cymru a chyrff gwirfoddol yn ei chwarae wrth gefnogi cenhadaeth genedlaethol Cymru mewn addysg gan bwysleisio pwysigrwydd addysg ar bob lefel i sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl i Lwybr Arfordir Cymru: mae gan ysgolion cynradd rôl allweddol i chwarae wrth gyflwyno plant i weithgarwch corfforol awyr agored, natur a chysyniadau allweddol mewn cynaliadwyedd, iechyd a llesiant; mae angen i ysgolion uwchradd gynnal y diddordebau cyffredinol hyn mewn pobl ifanc a datblygu gwybodaeth fwy arbenigol trwy bynciau fel hanes a daearyddiaeth ac unrhyw gymwysterau newydd sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr ac alinio â'r Cwricwlwm i Gymru; mae gan brifysgolion ran i'w chwarae wrth ddatblygu ymchwil a gwerthuso ac wrth ddatblygu addysg, sgiliau a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol y dyfodol a fydd yn cynnal y Llwybr a'r economïau a'r cymunedau cyfagos.

**Argymhelliad 13:** I nodi Degfed Pen-blwydd Llwybr Arfordir Cymru, dylai'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru ymrwymo i weithio'n frwd gydag ysgolion a sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu llythrennedd corfforol a natur i roi cyfle i bob plentyn yng Nghymru fwynhau o leiaf diwrnod o gerdded ar Lwybr Arfordir Cymru – neu lwybr pellter hir – erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd.

## 9. Rheolaeth

Mae Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru yn cynnwys yr Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol ar hyd y llwybr, ac yn cael ei oruchwylio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n dwyn ynghyd y rhai sy'n gyfrifol am reoli Llwybr Arfordir Cymru o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, os yw Llywodraeth Cymru am ddatblygu rôl fwy annatod i'r Llwybr mewn polisïau trawsbynciol mawr, yna bydd angen strwythurau wedi'u diweddaru a'u hadnewyddu i oruchwylio'r gwaith hwn a llywio'r cyfeiriad strategol newydd arfaethedig ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.

Bydd angen i'r strwythurau hynny hefyd ddenu partneriaid newydd o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac ystyried sut i ymgysylltu â chymunedau lleol, busnes, cymdeithasau twristiaeth, elusennau a grwpiau 'Cyfeillion...'. Bydd angen ymgysylltu hefyd â sefydliadau yn y sector cyhoeddus fel Cydbwyllgorau Corfforaethol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Iechyd.

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strwythur goruchwylio wedi'i ddiweddaru a'i adnewyddu ar gyfer rheoli Llwybr Arfordir Cymru, gan adlewyrchu'r dull strategol newydd a'r uchelgeisiau ar gyfer y Llwybr.

Yn ogystal, o fewn paramedrau'r Adolygiad, mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi gwneud rhywfaint o waith cwmpasu cychwynnol ar fodelau cydweithredol posibl i gryfhau a dyfnhau ymgysylltiad â Llwybr Arfordir Cymru a allai gynnwys dulliau lleol a chymunedol, tynnu ar fentrau cymdeithasol a grwpiau lleol sefydledig.

**Argymhelliad 15:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio modelau i annog mwy o gydweithredu a chydweithio – yn enwedig ar sail leol a chymunedol – i ddyfnhau ymgysylltiad cymunedol ac i gefnogi'r dull strategol newydd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru.

## 10. Adnoddau

Mae'r cynnydd diweddar mewn ymwelwyr yn ystod ac ar ôl pandemig Covid 19 wedi bod yn rhywbeth i'w groesawu ond mae hefyd wedi rhoi straen ar seilwaith Llwybr Arfordir Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau a'r cyllid presennol ar gyfer y Llwybr yn cael ei gyfeirio at waith cynnal a chadw ac yn cael ei gyrchu'n bennaf drwy gyllid blwyddyn sengl, drwy grant a ddosberthir gan CNC i'r awdurdodau partner. Mae rhywfaint o arian ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu gan yr awdurdodau eu hunain a thrwy brosiectau penodol. Bydd costau cynnal a chadw yn codi wrth i nifer yr ymwelwyr godi, wrth i effeithiau erydu arfordirol ac erydu o fathau eraill gael eu teimlo, ac wrth i'r buddsoddiad gwreiddiol mewn seilwaith sy'n ddegawd oed ddirywio.

**Argymhelliad 16:** Dylai'r sefydliadau sy'n rhan o Grŵp Partneriaeth Cenedlaethol Llwybr Arfordir Cymru – gyda chymorth Llywodraeth Cymru – ddatblygu cynllun hirdymor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer sicrhau gwaith cynnal a chadw a chyllid newydd, gan ystyried y buddion y cytunwyd arnynt y gall Llwybr Arfordir Cymru eu cynnig i gyllidwyr amrywiol yn unol â'r weledigaeth newydd ar gyfer y Llwybr (gan gynnwys iechyd a llesiant, ac adferiad byd natur ac ati).

Mae dod â phartneriaid newydd i mewn yn dod â chyfleoedd ariannu newydd i'r fei, yn enwedig os oes data da i ddangos manteision y Llwybr. Mae potensial buddsoddi yn yr ewyllys da y mae'r Llwybr yn ei gynhyrchu, a gallai hyn hefyd ddarparu opsiwn ariannu posibl.

**Argymhelliad 17:** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu dull newydd o gasglu a dadansoddi data sy'n ymwneud â defnyddiau ac effeithiau Llwybr Arfordir Cymru, monitro ac adrodd er mwyn caniatáu ar gyfer cynllunio ariannol cadarn a gwireddu buddion.

Roedd y Grŵp Adolygu'n gweld gwerth mewn denu gwirfoddolwyr o gymunedau lleol i hyrwyddo cyfranogiad cymunedol a chynorthwyo gyda gofalu am y Llwybr. Mae menter COASTodian yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn enghraifft o sut y gall trigolion helpu i ofalu am eu hoff fannau. Roedd cyfleoedd i gynnig prentisiaethau i bobl leol sy'n cynnwys gwaith sy'n gysylltiedig â'r Llwybr yn awgrym gwych arall.

## 11. Marchnata

Dywedwyd wrth y Grŵp Adolygu bod cynaliadwyedd y marchnata ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru wedi bod yn bryder ers tro. Dros y degawd diwethaf mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a CNC wedi bod yn gwneud gwaith i farchnata a hyrwyddo’r Llwybr, fodd bynnag, mae cyllid a chynllunio wedi digwydd yn flynyddol ac mae angen cytuno ar ddull mwy hirdymor. Roedd canmoliaeth eang i’r dull a arweiniwyd gan Croeso Cymru, gan gynnwys y partneriaid uchod, at farchnata’r Dogfed Pen-blwydd a’r farn y gallai hwn fod yn fodel ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 18:** Dylai Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru gydgrynhoi adnoddau a chyfrifoldebau ar gyfer marchnata Llwybr Arfordir Cymru ar lefel genedlaethol gyda Croeso Cymru.

**Argymhelliad 19:** Dylid cysylltu marchnata ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru â’r holl rwydwaith llwybrau pellter hir, gan hyrwyddo pecyn o gyfleoedd twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru.

## Atodiad

### Pwy oedd y Grŵp Adolygu?

Cadeirydd, Huw Irranca-Davies AS
Yr Athro Cara Aitchison, Is Ganghellor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Tegryn Jones, Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Rob Owen, Cadeirydd Ramblers Cymru
Ceri Witchard, Dirprwy Gyfarwyddwr Tirweddau, Natur a Choedwigaeth
Simon Pickering, Pennaeth Tirweddau a Hamdden Awyr Agored
Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygiad Twristiaeth a Chwaraeon
Andrew Forfar Wallace, Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol Croeso Cymru
Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol, CNC
Y Cynghorydd Huw Thomas, Llefarydd Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, CLlLC
Kaarina Ruta, Cynorthwy-ydd Trafnidiaeth, CLlLC
Dr Andy Williams, Rheolwr Ymchwil Sefydliad Iechyd a Llythrennedd Corfforol Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Andy Middleton, Prif Swyddog Archwilio, Tyf